| Byrddau Iechyd Lleol | **0** | 0 |
| Ymddiriedolaethau Gofal Cychwynnol | **0** | 0 |
| Ymddiriedolaethau GIG | **0** | 0 |
| Cronfa Risg Cymru | **0** | 0 |
| Dyledwyr cyfalaf | **0** | 0 |
| Dyledwyr eraill | **0** | 0 |
| Darparu dyledion na ellir eu hadfer | **0** | 0 |
| Cyndaliadau Pensiwn: | **0** | 0 |
| Cyndaliadau ac incwm sy'n deillio | **0** | 0 |
| **Is-gyfanswm** | **0** | **0** |
| **CYFANSWM** | **474** | **145** |

## 6.2 Credydwyr

| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | £000 | Ailddatgan 2003-04 £000 |
|---|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | **0** | 0 |
| Comisiwn Iechyd Cymru | **0** | 0 |
| Byrddau Iechyd Lleol | **7** | 5 |
| Ymddiriedolaethau GIG | **295** | 217 |
| Ymddiriedolaethau Gofal Cychwynnol | **0** | 0 |
| Treth incwm a nawdd cymdeithasol | **25** | 30 |
| Credydwyr di-GIG | **6,597** | 4,674 |
| Credydwyr Cyfalaf | **0** | 16 |
| Gorddrafft | **0** | 0 |
| Rhent sy'n ddyledus ar les gweithredu | **0** | 0 |
| Goblygiadau o dan les a chytundebau ariannol | **0** | 0 |
| Arbedion GPFH | **0** | 0 |
| Pensiynau: Staff | **0** | 0 |
| Croniadau | **544** | 504 |
| Incwm Gohiriedig | **0** | 344 |
| **CYFANSWM** | **7,468** | **5,790** |

## 6.3 Credydwyr

| Swm sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | Cyfanswm £000 | 2003-04 Cyfanswm £000 |
|---|---|---|
| Goblygiadau o dan les ariannol a chytundebau HP | **0** | 0 |
| Credydwyr GIG | **0** | 0 |
| Benthyciadau'r Cynlluniad | **0** | 0 |
| Pensyinau: Staff | **0** | 0 |
| Arall | **0** | 0 |
| **CYFANSWM** | **0** | **0** |

## 6.4 Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ar 1 Ebrill 2004 | Cytundeb Strwythuredig Trosglwyddwyd achosion i WRP | Trosglwyddo darpariaeth i gredydwyr | Codi yn ystod y flwyddyn | Gwrthdaro heb ei ddefnyddio | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | Dad-ddirwyn disgownt | Hyd at 31 Mawrth 2004 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Esgeulustod clinigol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Niwed personol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Holl golledion a thaliadau arbennig eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ffioedd cyfreithiol amddiffyn ac eraill | | | | | | | | |
| Costau gweinyddu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | **0** |
| **Is-gyfanswm** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Pensiynau | 0 | | | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Arall | 79 | | | 367 | 0 | (65) | | **381** |
| **Cyfanswm** | **79** | **0** | **0** | **367** | **0** | **(65)** | **0** | **381** |

**Amseriad arfaethedig llif arian:**

| | O fewn blwyddyn | Rhwng 2 a 5 mlynedd | Ar ôl 5 mlynedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Esgeulustod clinigol | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Niwed personol | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Holl golledion a thaliadau arbennig eraill | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ffioedd cyfreithiol amddiffyn ac eraill | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Pensiynau | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Arall | 381 | 0 | 0 | **381** |
| **Cyfanswm** | **381** | **0** | **0** | **381** |

Mae'r BILl yn amcangyfrif y bydd yn derbyn £0 yn 2005-06 ac yn 2006-07 ac ar ôl hynny £0 gan Gronfa Risg Cymru ar gyfer colledion a thaliadau arbennig.

Darpariaethau eraill yn cynnwys symiau o amseriad sicrwydd ac ansicrwydd rhesymol yn ymwneud â gwasanaethau gofal iechyd parhaus

## 6.5 Cronfa Gyffredinol

**Roedd symudiadau yn y Gronfa Gyffredinol o fewn y flwyddyn yn cynnwys:**

| | £000 |
|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2004** | (378) |
| Addasiad i'r cyfnod blaenorol | (5,260) |
| **Ar 1 Ebrill 2004 fel yr ail ddatganwyd** | (5,638) |
| Cost gweithredu net am y flwyddyn ariannol | (126,965) |
| Cyllid net gan y Cynulliad (gan gynnwys cyfalaf) | 126,108 |
| Llog tâl cyfalaf | (228) |
| Trosglwyddo i gyrff GIG | 0 |
| Trosglwyddo i gronfa gyffredinol elfennau o'r gronfa wrth gefn ailbrisio | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2005** | (6,723) |

## 6.6 Cronfa Wrth Gefn Asedau Rhodd

**Roedd y symudiadau yn y gronfa wrth gefn asedau rhodd yn y flwyddyn yn cynnwys:**

| | £000 |
|---|---|
| **Balans hyd at 1 Ebrill 2004** | 0 |
| Ychwanegiadau | 0 |
| Diffygion | 0 |
| Ailbrisio a mynegeio | 0 |
| Gwaredu a diddymu | 0 |
| Dibrisio | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2005** | 0 |

## 6.7 Cronfa wrth gefn ail-brisio

**Roedd symudiad y gronfa wrth gefn ailbrisio am y flwyddyn yn cynnwys:**

| | £000 |
|---|---|
| **Balans hyd at 1 Ebrill 2004** | 0 |
| Ailbrisio | 0 |
| Mynegeio | 0 |
| Trosglwyddo i gronfa gyffredinol - ailbrisio wedi'i wireddu | 0 |
| **Balans hyd at 31 Mawrth 2005** | 0 |

## 6.8 Rhwymedigaethau wrth gefn - nid yw'r colledion/enillion wrth gefn canlynol wedi eu cynnwys yn y cyfrifon -

| **Natur:** | **£000** | **Ansicrwydd yn effeithio ar y deilliant:** |
|---|---|---|
| Ceisiadau cyfreithiol trydydd parti | **0** | |
| Dyledion amheus | **0** | |
| Arall | **0** | |
| **CYFANSWM** | **0** | |

Nodyn 7 Adroddiad yr Ombwdsman ar Ofal Tymor Hir, yn cynnwys manylion pellach ynglyn â nodyn 6.8 a sefyllfa'r Bwrdd Iechyd Lleol ynglyn ag Adroddiad yr Ombwdsman ar Ofal Tymor Hir a rhwymedigaethau posibl yn dilyn yr adroddiad hwn.

## 6.9 Balans o fewn y Llywodraeth

| | **Dyledwyr:** | **Dyledwyr:** | **Credydwyr** | **Credydwyr** |
|---|---|---|---|---|
| | **Swm sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **Swm dyledwyr yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | **Swm sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **Swm sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Balans gyda chyrff llywodraeth ganolog eraill | 59 | 0 | 25 | 0 |
| Balans gydag awdurdodau lleol | 49 | 0 | 714 | 0 |
| Balans gydag Ymddiriedolaethau GIG ac Ymddiriedolaethau Sylfaen | 5 | 0 | 295 | 0 |
| Balans gyda Byrddau Iechyd Lleol | 85 | 0 | 7 | 0 |
| Balans gyda chyrff cyhoeddus a chronfeydd masnachu | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Balans gyda chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 276 | 0 | 6427 | 0 |
| **Cyfanswm hyd at 31 Mawrth 2005** | **474** | **0** | **7468** | **0** |

## 6.10 Gweithgareddau yn dilyn y fantolen

**Gweithgareddau yn dilyn y fantolen ag effaith sylweddol ar y cyfrifon:**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Does dim Gweithgareddau yn dilyn y Fantolen . | 0 |
| | ………………………………………………………………………………. | 0 |
| **2.** | ………………………………………………………………………………. | 0 |
| | ………………………………………………………………………………. | 0 |
| **CYFANSWM** | | **0** |

## 6.11 Ymrwymiadau cyfalaf

**Mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol yr ymrwymiadau cyfalaf canlynol:**

| | |
|---|---|
| Contractio | 0 |
| Awdurdodedig ond heb gontractio | 0 |
| **CYFANSWM** | **0** |

## 6.12 Gweithrediadau Sefydliadau Cysylltiol

| | £000 |
|---|---|
| Cyfanswm gweithrediadau gydag aelodau'r Bwrdd a staff allweddol uwch yn 2004-05 | **0** |

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych yn gorff corfforaethol a sefydlwyd trwy orchymyn y Cynulliad

Nid oedd gan y BILl unrhyw drafodion cyfalaf yn ystod y flwyddyn.

Nid yw'r BILl yn gyfrifol am Arian Elusennol.

Ma'er Cynulliad yn cael ei ystyried fel sefydliad cysylltiol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd BILl Sir Ddinbych nifer fawr o drafodion sylweddol gyda'r Cynulliad a hanfodion eraill ble'r ystyriwyd y Cynulliad fel y corff rhiant, yn benodol

| | £000 |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Conwy a Dinbych | 77,211 |
| Ymddiriedolaeth Gogledd Ddwyrain | 3,785 |
| Ymddiriedolaeth Gogledd Orllewin | 107 |

Roedd trafodion sylweddol gydag hanfodion yn Lloegr hefyd, yn benodol:-

| | |
|---|---|
| Robert Jones ac Agnes Hunt | 850 |
| Brenhinol Lerpwl a Broadgreen | 347 |

Mae'r holl ddarparwyr eraill yn llai na £250k ac felly nid yn cael eu hystyried yn sylweddol.

Yn ystod y flwyddyn, nid yw'r un o aelodau'r bwrdd nac aelodau'r prif dîm rheoli na phartion cysylltiol eraill wedi ymgymryd â thrafodion sylweddol gyda BILl Sir Ddinbych. Fodd bynnag, roedd Aelodau heb fod yn Swyddogion wedi datgan eu cyfraniad o fewn sefydliadau fel y nodwyd isod sydd ag ymrwymiadau ariannol gyda'r Bwrdd:-

(a) Meddygon Teulu sy'n gweithio yn ardal y BILl
(b) Mae'r aelodau Offthalmeg a Fferyllol yn derbyn ad-daliad am ddarparu gwasanaethau gan y BILl
(c) Aelodau'r Bwrdd a staff o Ymddiriedolaethau GIG Gogledd Cymru
(d) Swyddogion a Chynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych
(e) Aelodau sydd wedi datgan diddordeb mewn mudiadau gwirfoddol sy'n derbyn cymorth grant neu sy'n cyflenwi gwasanaethau i'r BILl.

Mae enwau a pherthynas Aelodau'r Bwrdd gyda'r BILl yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

Dr Gwyn Pierce-Williams - Meddyg Teulu
Dr Martin O'Donnell - Meddyg Teulu
Dr Richard Barrie - Meddyg Teulu
Mr Adrian Hughes - Optometrydd
Mr Ian Howard - Ymdd. GIG Conwy a Dinbych
Dr David Gozzard - Ymdd. GIG Conwy a Dinbych
Mrs Pam Mainwaring - Ymdd GIG Conwy a Dinbych

## 6.12 Trafodion Partion Cysylltiedig

Enwau a pherthynas Aelodau'r Bwrdd gyda'r BILl yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:
(Parhad)

Mr Russell Bennett - Deintydd
Mrs Miriam Blanchard - Fferyllydd
Mrs Mari Wyn Hughes - Nyrs
Mr Alan Benbow -Sector Gwirfoddol
Mrs Karen Kilcoyne - Sector Gwirfoddol
Mrs Sally Ellis - Cyngor Sir Ddinbych
Mr Iwan Prys-Jones - Cyngor Sir Ddinbych
Cynghorydd Pauline Dobb - Cynghorydd Sir Ddinbych
Mr Andrew Jones - Ymdd. GIG Felindre
Miss Margaret Medley - Cadeirydd, Pwyllgor Ardal Sir Ddinbych, Cyngor Iechyd Cymuned

## 6.13 Colledion a thaliadau arbennig

| | Nifer yr achosion | Gwerth yr achosion £ |
|---|---|---|
| Niwed personol | 0 | 0 |
| Achosion twyll | 8 | 618 |
| Holl golledion a thaliadau arbennig eraill | 97 | 64,795 |
| Cyfanswm colledion a thaliadau arbennig | 105 | 65,413 |

Dadansoddiad o achosion sy'n fwy na £100,000 a phob achos arall

| | Symiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn £ | Swm cronnus £ | Cymeradwy-wyd i'w ddileu o fewn y flwyddyn £ |
|---|---|---|---|
| **Achosion sy'n fwy na £100,000** | | | |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| **Is-gyfanswm** | 0 | 0 | 0 |
| **Pob achos arall** | 65,413 | 0 | 50,127 |
| **Cyfanswm yr achosion** | 65,413 | 0 | 50,127 |

## 6.14 Offer Ariannol

Mae FRS13, Deilliannau ac Offerynnau Ariannol Eraill angen datgelu rôl ariannol yn ystod cyfnod creu neu newid wyneb risg a hanfodion wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd y modd mae BILlau Cymru yn cael eu cyllido nid ydynt yn wynebu'r un risg ariannol sy'n wynebu busnesau. Hefyd, mae offer ariannol yn chwarae rôl mwy cyfyngol wrth greu neu newid risg a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmniau a restrwyd sy'n berthnasol i FRS 13. Nid oes gan y BILl unrhyw rym i fenthyg na buddsoddi arian sy'n weddill a chynhyrchir asedau a rhwymedigaethau ariannol trwy weithgareddau o ddydd i ddydd yn hytrach na newid y risg sy'n wynebu'r BILl wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

**Risg Hylifedd**

Mae dyraniadau incwm a gwariant cyfalaf y BILl yn cael ei gyllido gan adnoddau a bleidleisir yn flynyddol gan y Senedd. Felly, nid ydynt yn agored i risg hylifol sylweddol.

**Risg Cyfraddau Llog**

Mae holl asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol y BILl yn cynnwys dim neu gyfraddau llog sefydlog. Felly, nid ydynt yn agored i unrhyw risg i gyfraddau llog.

**Risg Arian Tramor**

Mae gan y BILl incwm a gwariant tramor dibwys. Felly, nid ydynt yn agored i unrhyw risg i arian tramor sylweddol.

## 6.15 Goblygiadau Les Ariannol

**Roedd taliadau lleiafswm les yr ymrwymwyd y Bwrdd Iechyd Lleol iddo ar ddyddiad y fantolen fel a ganlyn**

| | **£000** |
|---|---|
| O fewn blwyddyn | 0 |
| Rhwng blwyddyn a 5 mlynedd | 0 |
| Ar ôl 5 mlynedd | 0 |
| **Is-gyfanswm** | **0** |
| Llai taliadau ariannol a ddyranwyd ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol | 0 |
| **CYFANSWM** | **0** |

**Gellir dadansoddi goblygiadau net o dan brydles ariannol fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| Credydwyr: swm yn ddyledus o fewn blwyddyn | **0** |
| Credydwyr: swm yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | **0** |

## 6.16 Cyllidebau mewn Cronfa

Yn ystod 2004-05 nid oedd y Bwrdd Iechyd Lleol yn gweithredu unrhyw drefniadau cyllideb mewn cronfa.

## 7 Gwybodaeth Ychwanegol

### Tîm Comisiynu Ail Gynnig

Yn ystod 2004/05, roedd BILl Rhondda Cynon Taf yn cynnig llety i'r Tîm Comisiynu Ail Gynnig (SOCT). Derbyniodd BILl Rhondda Cynon Taf arian gan y Cynulliad ar gyfer costau rhedeg yr SOCT a hefyd y costau gofal iechyd cysylltiol i gleifion gael triniaeth o dan y Cynllun Ail Gynnig.

Roedd y costau oedd yn gysylltiedig â Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych yn £59,000.

### Addasiad i Gyfnod Blaenorol (PPA)

Ers eu sefydlu ar 1 Ebrill 2003, mae'r BILlau wedi bod o fewn ffiniau cyfrifa adnoddau y Cynulliad a dylai eu cyfrifon blynyddol gydymffurfio â Llawlyfr Cyfrifa Adnoddau Trysorlys EM.

O dan cyfrifa adnoddau, nid yw arian y Cynulliad bellach yn cael ei drin fel 'incwm' ond fel 'arian' ac ni ddylai unrhyw ddyledwyr na chredydwyr sy'n ymwneud â'r Cynulliad fodoli ar ddiwedd y flwyddyn. Yn 2003/04 nid oedd yr agwedd hon o gyfrifa adnoddau yn berthnasol i gyfrifon y BILl ar gyfer trafodion cyllid a wnaed yn 2003/04 neu mewn cysylltiad â'r balansau a etifeddwyd gan Awdurdodau Iechyd. Roedd cyfrifon 2003/04 yn cynnwys balansau o'r fath yn anghywir.

Felly, roedd angen PPA yn 2004/05 i ysgrifennu'r balansau hyn ac adlewyrchu'r cyflwyniad llawn o gyfrifa adnoddau. Mae'r symudiad net o ganlyniad mewn balansau dyledwyr/credydwyr wedi symud i'r Gronfa Gyffredinol yn y cyfnod blaenorol:

Manylion y PPA isod:

| | (£'000) |
|---|---|
| Gostyngiad mewn dyledwyr | 5260 |
| Gostyngiad mewn credydwyr | 0 |
| Gostyngiad mewn Cronfa Gyffredinol | 5260 |

Effaith y PPA hwn ar ganlyniadau cyfrifon 2003/04 yw lleihau'r Gronfa Gyffredinol a lleihau'r asedau net £5260k.

## 7 Gwybodaeth Ychwanegol parhad

### Adroddiad yr Ombwdsman ar Ofal Tymor Hir (nodyn 6.8 yn cyfeirio)

Roedd adroddiad gan Ombwdsman y Gwasanaeth Iechyd ar Ofal Iechyd Parhaus wedi'i Ariannu gan y GIG yn canfod mewn pedwar achos y dylai'r GIG fod wedi talu'n llawn am ofal y cleifion. O ganlyniad, trefnir adolygiadau arbennig gan BILl Powys, y sefydliad a oedd yn olynydd i'r Awdurdod Iechyd.

Roedd ymchwiliad yr Ombwdsman yn cwestiynu rhywfaint o'r meini prawf a ddefnyddiwyd i benderfynu pwy oedd yn gymwys am ofal iechyd parhaus ac o ganlyniad y penderfyniadau ariannu.

Os bydd pobl wedi talu am eu gofal trwy gamgymeriad yn y gorffennol, byddan nhw neu berthynas yn gallu hawlio ad-daliad o'r arian a dalwyd i'r darparydd gofal iechyd neu'r cartref nyrsio.

Bydd y GIG yn adolygu pob achos ers 1996 ble bydd cleifion neu eu cynrychiolwyr yn credu bod penderfyniad yn y gorffennol i beidio talu am ofal yn anghyfiawn neu os na ystyriwyd talu am ofal pan y dylid gwneud hynny.

Bydd pob achos a ganfyddir yn gymwys i ad-daliad gofal cyn 31 Mawrth 2003 yn derbyn ad-daliad gan BILl Powys fel y corff oedd yn olynydd i'r Awdurdod Iechyd.  Bydd unrhyw achosion ar ôl 1 Ebrill 2003 yn gorfod cael eu talu gan y BILl dan sylw.

Mae BILl Sir Ddinbych wedi gwneud darpariaeth yn y cyfrifon ble mae'r manylion yn hysbys. Fodd bynnag, ar sail cyhoeddusrwydd sy'n ymwneud â'r mater, mae'r BILl yn ei ystyried yn synhwyrol i godi rhwymedigaeth wrth gefn i bob achos a gyflwynir o ganlyniad i ymwybyddiaeth gynyddol y cyhoedd.

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl cadarnhau a yw atebolrwydd pellach yn bodoli ai peidio na mesur unrhyw atebolrwydd.

**Rhagolygon Sefyllfa Ariannol 2005/2006**

Mae BILl Sir Ddinbych yn brif aelod o Gymuned Iechyd Conwy a Dinbych.  Nid yw'r trafodion ar gyfer y Fframwaith Gwasanaeth ac Ariannol wedi eu cwblhau eto ar gyfer 2005/2006. Mae'r Gymuned Iechyd yn rhagweld diffyg o £7.282miliwn ar gyfer 2005/2006. Mae hyn yn cael ei adolygu gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru (WAG) ar hyn o bryd.  Mae'r diffyg hwn yn eistedd ar ragolygon o sefyllfa ariannol Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Dinbych ar hyn o bryd ac mae'r Economi Iechyd yn delio gyda'r diffyg gydag amrywiaeth o fesurau rhesymoli. Hysbyswyd WAG na fydd y mesurau hyn yn cyflawni'r arbedion ariannol angenrheidiol am y flwyddyn.

## 7 Gwybodaeth Ychwanegol parhad

**(testun yma / text here)**

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R PRIF WEITHREDWR**
**FEL SWYDDOG SY'N ATEBOL O'R BWRDD IECHYD LLEOL**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi rhoi cyfarwyddyd mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog sy'n Atebol i'r BILl. Mae cyfrifoldebau perthnasol y Swyddogion sy'n Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb i fod yn berchen a rheoleiddio'r arian cyhoeddus yr oeddynt yn gyfrifol amdano, ac am gadw cofnodion cywir, wedu eu gosod ym Memorandwm y Swyddog sy'n Atebol a gyhoeddwyd gan y Cynulliad.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth, rwyf wedi derbyn y cyfrifoldebau a osodwyd yn fy llythyr penodiad fel Swyddog sy'n Atebol.

Dyddiad: ………………2005 .......................................................... Prif Weithredwr

**DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR O SAFBWYNT Y CYFRIFON**

O dan y Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys yn cadarnhau bod y rhain yn rhoi barn deg a chywir o faterion y BILl ac incwm a gwariant y BILl am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr:

weithredu polisiau cyfrifa gan y Cynulliad yn rheolaidd gyda chymeradwyaeth y Trysorlys

gyflwyno barn ac amcangyfrif sy'n gyfrifol ac yn synhwyrol

nodi a ddilynwyd safonau cyfrifa perthnasol, yn amodol ar waredu unrhyw ddeunydd a ddatgelir ac eglurir yn y cyfrif

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifa cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr awdurdod a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion a amlinellwyd yn y cyfarwyddyd uchod y soniwyd amdano gan y Cynulliad.

**Trwy Orchymyn y Bwrdd**

**Arwyddwyd:**

Cadeirydd: ....................................................... Dyddiad: ................................... 2005

Prif Weithredwr: ............................................. Dyddiad: ................................... 2005

Cyfarwyddwr Cyllid: ....................................... Dyddiad: ................................... 2005

## DATGANIAD RHEOLAETH FEWNOL

### 1. Sgôp cyfrifoldeb

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am reolaeth fewnol. Fel Swyddog sy'n Atebol a Phrif Weithredwr y Bwrdd hwn, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisiau, nod ac amcanion y sefydliad tra'n amddiffyn arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad hwn yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd gan Swyddog sy'n Gyfrifol GIG Cymru.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses rheoli risg cyfredol a ddyluniwyd i ganfod prif risg i amcanion y sefydliad; gwerthuso natur y risg hwnnw a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd.

Mae cyfrifoldebau rheolaeth fewnol y sefydliad hefyd yn cael eu hystyried a'u hasesu yn yr adolygiadau atebolrwydd chwarterol gyda'r Swyddfa Ranbarthol. Ni chanfuwyd unrhyw faterion difrifol sy'n ymwneud â rheolaeth fewnol, rheoli risg na rheolaeth glinigol yn 2004/2005.

### 2. Pwrpas y system rheolaeth fewnol

Dyluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol (neu dderbyniol) yn hytrach na lleddfu pob risg sy'n wynebu'r sefydliad, felly gall gynnig sicrwydd o effeithiolrwydd yn rhesymol, nid yn llwyr. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses gyfredol a ddyluniwyd i:

* ganfod a blaenoriaethu'r risg i gyflawni polisiau, nod ac amcanion y sefydliad
* gwerthuso'r tebygolrwydd o'r risg hwnnw'n cael ei wireddu a'r effaith os caiff ei wireddu, a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bodoli o fewn y sefydliad am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2005 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a chyfrifon blynyddol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru

### 3. Rheoli Risg

Mae'r Polisi a Strategaeth Rheoli Risg yn cynnwys rôl a chyfrifoldeb y Prif Weithredwr mewn cysylltiad â Rheoli Risg. Mae'r Prif Weithredwr wedi dirprwyo rhannu cadeiryddiaeth y Pwyllgor Llywio Rheoli Risg i'r Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Cyllid.

Mae'r BILl wedi datblygu Fframwaith Rheoli Risg cadarn yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau, GIG Cymru ym mis Medi 2003 (Canllaw Atodol i Fyrddau Iechyd Lleol GIG Cymru: Datganiad Rheolaeth Fewnol 2003-04) fel y nodwyd yn Safonau Rheoli Risg Cymru.

Comisiynodd y BILl Archwilwyr Mewnol Myrswy i hwyluso llunio'r Fframwaith Sicrwydd yn 2003/2004 a oedd yn canfod y prif risg a all atal y BILl rhag cyflawni'r prif amcanion. Cyflawnwyd hyn gyda chyfraniad sylweddol y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.

Yn 2004/2005, datblygodd y BILl gynllun gweithredu yn deillio o'r fframwaith sicrwydd, mae hyn yn ceisio sicrhau cyswllt cryf rhwng y fframwaith sicrwydd a'r gofrestr risg a hefyd i sefydlu rheoliadau allweddol ble nad yw'r Bwrdd yn derbyn sicrwydd ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cael ei fonitro trwy eitem sefydlog ar agenda'r Grwp Llywio Rheoli Risg, cyflwynir y cofnodion trwy'r Pwyllgorau Rheolaeth Glinigol ac Archwilio.

Er bod fframwaith rheoli risg yn bodoli, mae angen datblygu nifer o feysydd. Mae'r BILl yn bwriadu cyflwyno cofrestr risg corfforaethol ar draws pob rhan o'r sefydliad yn 2005/06 a fydd yn cynorthwyo i ddatblygu sefydliad sy'n ymwybodol o'r risg mae'n ei wynebu. Bydd hyn yn cael ei hwyluso trwy Gynllun Archwilio Mewnol y BILl ar gyfer 2005/2006. Bydd hyn yn galluogi gwneud penderfyniadau rheoli risg mor agos ag sy'n ymarferol i'r ffynhonnell risg ac i'r risg hynny na ellir rhoi sylw yn lleol gael eu trosglwyddo i'r lefel briodol.

Mae rheoli risg, asesu risg ac adrodd am ddigwyddiadau wedi'i gynnwys o fewn cwrs anwytho craidd i staff. Mae'r ffolder anwytho craidd yn cynnwys adran ar reoli risg a darperir taflen wybodaeth i staff hefyd. Mae'r cyfeirlyfr hyfforddiant hefyd yn cynnwys rheoli risg a bydd staff yn derbyn diweddariadau trwy gyfarfodydd briffio staff misol. Mae staff allweddol wedi derbyn hyfforddiant Dadansoddi Achos a fydd yn cael ei raeadru trwy'r BILl.

**4. Y Fframwaith Risg a Rheolaeth**

Mae'r fframwaith rheoli risg yn y Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg a gafodd ei adolygu yn 2004/2005. Mae prif elfennau'r strategaeth yn cynnwys:

* Crynodeb gweithredol gan y Prif Weithredwr sy'n cynnwys yr ymrwymiad i reoli risg.
* Nod ac amcanion
* Egwyddorion
* Cyfrifoldebau dirprwyol gan gynnwys Pwyllgorau a Gweithgorau
* Prosesau Rheoli Risg sy'n cynnwys canfod, gwerthuso, dadansoddi, rheoli risg adolygu a dilyniant.
* Trefniadau hyfforddiant
* Dosbarthu i brif rhanddeiliaid.
* Amcanion Rheoli Risg
* Prif Bwyllgorau i reoli risg gan gynnwys crynodeb o'r Cylch Gwaith

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i danseilio gan gydymffurfiaeth gyda gofynion y Safonau Rheoli Risg Cymru. Roedd y sgôr fel yr aseswyd gan y BILl a gwiriwyd yn allanol gan Asiantaeth Archwilio Mewnol Myrswy a Chronfa Rheoli Risg Cymru fel a ganlyn: (Safon I yn hunan asesiad)

| Safon | Disgrifiad | Cyfnod | Aseswyd | Targed | Sgôr | Sgor 2003/2004 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Polisi a Strategaeth rheoli risg | Blwyddyn lawn | WRP | 75% | 81% | 51% |
| B | Asesu a Thrin Risg | Blwyddyn lawn | WRP | 75% | 63% | 53% |
| C | Adrodd am Achosion a Pherygl | Blwyddyn Lawn | WRP | 75% | 75% | 89% |
| D | Polisiau a Gweithdrefnau | Blwyddyn lawn | MIAA | 75% | 82% | amherthnasol |
| E | Rheolaeth | Blwyddyn lawn | MIAA | 75% | 88% | 79% |
| F | Rheolaeth Ariannol | Blwyddyn lawn | MIAA | 75% | 93% | 82% |
| G | Hwyluso Gofal Cychwynnol Diogel | 6 mis | WRP | 50% | 79% | amherthnasol |
| i | Rheoli Cofnodion | 6 mis | hunan | 50% | 73% | amherthnasol |

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol gyflawni sgôr cydymffurfo o leiaf 70% o safonau cyffredinol A, B, C a G, cyflawnodd y BILl 74%

Roedd Cronfa Risg Cymru yn canfod nifer o feysydd arfer da o fewn y BILl, i'w rannu ar draws Cymru, enghreifftiau'n cynnwys y Strategaeth Rheolaeth Glinigol, y pecyn Hunan-Asesu Arfer Rheolaeth Glinigol, y Strategaethau Rheoli Risg a Chyfathrebu a'r defnydd o swyddi ar y cyd i gefnogi rheolaeth glinigol ar draws BILlau Conwy a Sir Ddinbych.

Hunan-aseswyd Safonau Rheoli Risg Cymru yn ystod y flwyddyn a lluniwyd cynlluniau gweithredu ar gyfer pob Safon a chymeradwy-wyd gan y Pwyllgor Llywio Rheoli Risg. Adolygir y cynlluniau gweithredu hyn fel eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer y Pwyllgor Llywio Rheoli. Aseswyd y safonau craidd gan naill ai Cronfa Risg Cymru (Safonau A,B,C,G), Rheolaeth Fewnol (Safonau D, E, F) neu hunan-aseswyd (Safon i) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol; mae hyn yn cynnig sicrwydd ar berthnasedd a phriodoldeb y dystiolaeth a ddarparwyd i gefnogi'r broses hunan-asesu.

Mecanweithiau eraill yn cynnwys:

- Cofrestrau Risg Cyfarwyddiaeth (i'w ddatblygu yn 2005/2006)
- Addysg a hyfforddiant
- Cymeradwyo a chadarnhau pholisiau
- Rheolwyr â mynediad i ddigwyddiadau yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac mae angen tystiolaeth i gadarnhau bod risg yn cael ei drafod a'i gyfathrebu ar bob lefel.
- Y Fframwaith Monitro Hunan Asesiad Rheolaeth Glinigol a gyflwynwyd yn 2004/2005. Meddygfeydd wedi canfod eu prif gryfderau a gwendidau ac wedi llunio cynllun datblygu mewn cysylltiad â rheolaeth glinigol, y fframwaith Ansawdd a Deilliant Cytundeb GMS newydd a chyflawni achrediad gwasanaethau estynedig.

**5. Adolygu Effeithiolrwydd**

Fel Swyddog Atebol, rwyn gyfrifol am adolgyu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi'i hysbysu gan waith yr archwilwyr mewnol a swyddogion gweithredol o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal fframwaith rheolaeth fewnol a sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Cefais fy hysbysu am oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio, y Grwp Llywio Rheolaeth Risg a'r Pwyllgor Rheolaeth Glinigol. Mae cynllun i ddelio gyda gwendidau a sicrhau gwelliannau parhaus yn bodoli.

Mae'r cyfraniad i'r adolygiad o effeithiolrwydd pob ffynhonnell fel a ganlyn:

* Mae'r pennaeth archwilio mewnol yn rhoi barn ar y trefniadau cyffredinol i gynnal sicrwydd trwy'r Fframwaith Sicrwydd a'r rheoliadau a adolygwyd fel rhan o'r gwaith archwilio mewnol. Mae'r Archwilwyr Mewnol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn derbyn manylion y camau sy'n parhau'n weddill yn dilyn dilyniant i waith archwilio blaenorol.  Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cyfarfod y Rheolwr Archwilio hefyd.

* Mae Cronfa Risg Cymru a'u hasesiad allanol o'r pedwar safon Cronfa Risg Cymru a sgôr Safonau Rheoli Risg Cymru yn cynnig sicrwydd ychwanegol i mi.

* Derbyniodd y BILl y Safon Arian ar gyfer Iechyd yn y Gwaith, mae hyn yn cynnig sicrwydd y gwnaed cynnydd i hybu iechyd staff. Roedd tîm asesu'r Safon Corfforaethol: Iechyd yn y Gwaith yn canmol y systemau cyfathrebu o fewn y sefydliad, yn arbennig y fforwm staff a ddatblygwyd yn dda.

* Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol o fewn y sefydliad â chyfrifoldeb datblygu a chynnal y system rheolaeth fewnol yn rhoi sicrwydd trwy adolygu perfformiad yn erbyn amcanion.

* Mae'r Fframwaith Sicrwydd ei hun yn rhoi tystiolaeth bellach bod effeithiolrwydd y rheoliadau sy'n rheoli risg i'r sefydliad gyflawni ei brif amcanion wedi eu hadolygu a bod cynllun gweithredu wedi'i lunio o ganlyniad i'r adolygiad hwn.

* Rôl y Bwrdd yw cynnig arweiniad gweithredol y BILl o fewn fframwaith rheoliadau effeithiol a gofalus sy'n galluogi asesu a rheoli risg.

* Mae'r Pwyllgor Archwilio, fel rhan o strwythur pwyllgor integredig yn cynnig rôl ganolog i gynghori'r Bwrdd ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol.

* Mae'r Grwp Llywio Rheoli Risg a'r Pwyllgor Rheolaeth Glinigol yn elfennau allweddol er mwyn asesu effeithiolrwydd a sicrhau'r Bwrdd am reolaeth risg yn gyffredinol a risg clinigol.

* Enwebwyd Arbenigydd Atal Twyll Lleol gyda chyfrifoldeb datblygu diwylliant atal twyll cadarn trwy'r sefydliad

Mae'r BILl wedi wynebu sawl her newydd yn 2004/05 ble datblygwyd systemau a pharheir i'w gwella yn ystod 2005/06. Canfuwyd pwysau ariannol a rheolwyd yn effeithiol o fewn y flwyddyn. Mae'r prif feysydd yn ymwneud â rhagnodi, gofal iechyd parhaus a materion sy'n ymwneud â'r Cytundeb GMS.

Adroddir am unrhyw faterion rheolaeth fewnol sylweddol i'r Bwrdd trwy'r Pwyllgor Archwilio.
**Ni chanfuwyd unrhyw faterion rheolaeth fewnol sylweddol yn ystod 2004/2005.**

| | |
|---|---|
| Arwyddwyd | Prif Weithredwr |
| Dyddiad | (ar ran y Bwrdd) |

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 2 i 37 o dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'u haddaswyd gan y broses o ailbrisio rhai asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifyddu fel y nodir ar dudalennau 6 i 10.

## Priod gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr, y Prif Weithredwr a'r Archwiliwr

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 39 mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Adran 98(2) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi Rhagair/cynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Sefydlwyd fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud a rhoddaf ystyriaeth i'r safonau a'r arweiniad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi eu paratoi yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr sylweddol, wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd, os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Bwrdd wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyriaf p'un a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau sylweddol â'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 40 i 43 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Bwrdd ag arweiniad y Trysorlys a'r Cynulliad ar y Datganiad Rheolaeth Fewnol. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys a'r Cynulliad, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, a yw'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn cwmpasu pob risg a rheolaeth. Nid yw'n ofynnol i mi ychwaith roi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Bwrdd na'i weithdrefnau risg a rheoli.

**Cyfrifon Blynyddol Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych 2004-2005**

## Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau o bwys a wneir gan y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Bwrdd, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd, yn fy marn i, yn angenrheidiol i roi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.
Ar yr adeg yma, nid yw'r Adroddiad Blynyddol ar gael. Rwyf felly wedi rhoi fy marn ar y datganiadau ariannol hyn heb weld a yw'r gwybodaeth arall o fewn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson efo'r cyfrifon archwiliedig.

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o faterion Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych ar 31 Mawrth 2005 a'r costau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben, ac fe'u paratowyd yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn unol â'r Ddeddf honno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- ym mhob ystyr sylweddol, mae'r gwariant a'r incwm wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
**01 Awst 2005**

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA

**CYFRIF - 2004-2005**

**CYFARWYDDYD ARIANNOL GWASANAETH IECHYD GWLADOL CYMRU A RODDWYD GAN GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU YN UNOL AG ADRAN 98(2) O'R DDEDDF GWASANAETH IECHYD GWLADOL 1977 GYDA CHYMERADWYAETH Y TRYSORLYS**

**BYRDDAU IECHYD LLEOL**

1. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (NAW) yn rhoi cyfarwyddyd y bydd cyfrif yn cael ei baratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2005 a blynyddoedd ariannol dilynol y Byrddau Iechyd Lleol (BILl). Bydc paratoadau ar gyfer ffurf a chynnwys fel y nodwyd yn y paragraffau a'r Atodlenni canlynol.

**SAIL PARATOADAU**

2. Bydd cyfrif y BILl yn cydymffurfio gyda:

(a) egwyddor cyfrifeg gyffredinol dderbyniol yn y Deyrnas Unedig (UK GAAP);

(b) gofynion cyfrifa a datgelu'r Ddeddf Cwmniau;

(c ) holl safonau cyfrifydda perthnasol a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifydda, mor belled ag y byddant yn briodol i'r GIG ac mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y cyfrifon;

(d) canllawiau cyfrifydda a gymeradwy-wyd gan yr FRAB ac wedi eu cynnwys yn y Llawlyfr Cyfrifa Adnoddau, ond yn benodol yn eithrio atodlenni 1 a 5;

(e) confensiwn cost hanesyddol a addaswyd trwy gynnwys asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r busnes trwy gyfeirio at gostau presennol; a'r stoc ar yr isaf o gost disodli cyfredol net (neu gost hanesyddol os nad yw hwn yn sylweddol wahanol) a gwerth gwireddadwy net.

**FFURF A CHYNNWYS**

3. Bydd cyfrif y BILl am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2005 a blynyddoedd dilynol yn cynnwys datganiad cost rhedeg, mantolen, datganiad llif arian a datganiad cydnabod enillion a cholledion cyn belled a bod FRAB angen y rhain, gan gynnwys nodiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau dealltwriaeth iawn o'r cyfrifon.

4. Ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2005 a blynyddoedd dilynol, bydd cyfrif y BILl yn rhoi barn gywir a theg o'r sefyllfa hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, a'r costau rhedeg, enillion a cholledion cydnabyddedig a llif arian yn ystod y flwyddyn.

5. Bydd y fantolen yn cael ei harwyddo a'i dyddio gan brif weithredwr a chyfarwyddwr cyllid y BILl.

**AMRYWIOL**

6. Bydd y cyfarwyddyd yn cael ei ailgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon a gyhoeddir.

7. Bydd nodiadau gyda'r cyfrifon, ymhlith eraill yn cynnwys manylion y polisiau cyfrifa a fabwysiadwyd.

8. Gwneir nodiadau gydag eglurhad pellach o'r ffigyrau yn y cyfrifon ble'r ystyrir yn briodol ar gyfer dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

Arwyddwyd gan awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Arwyddwyd : Christine Daws Dyddiad :

**CYFRIF - 2004-2005**

## ATODIAD 1

### DEFNYDDIO CYFRIFON A GOFYNION DATGELU'R DDEDDF CWMNIAU A SAFONAU CYFRIFON

**Deddf Cwmniau**

1. Ni fydd yr eithriadau datgelu gan y Ddeddf Cwmniau yn berthnasol i'r GIG oni bai y cymeradwy-wyd yn benodol gan y Trysorlys.

2. Mae'r Ddeddf Cwmniau yn mynnu bod gwybodaeth benodol yn cael ei datgelu yn Adroddiad y Cyfarwyddwr. Hyd nes y bydd yn briodol, bydd yr wybodaeth sy'n ymwneud â chyrff GIG yn cael ei chynnwys yn y rhagair.

3. Bydd y datganiad cost gweithredu, mantolen a datganiad llif arian yn ystyried y ffurf a ragnodwyd yn y Llawlyfr Cyfrifa Adnoddau.

5. Nid yw'n ofynnol i gyrff GIG ddarparu gwybodaeth cost hanesyddol a ddisgrifir ym mharagraff (33) o Atodiad 4 i'r Ddeddf Cwmniau.

Safonau Cyfrifa

6. Nid yw'n ofynnol i gyrff GIG gynnwys nodyn yn dangos elw a cholledion costau hanesyddol fel y disgrifir yn FRS 3.

## ATODIAD 2

### GOFYNION YCHWANEGOL

1. Bydd y rhagair yn cynnwys datganiad bod y cyfrif wedi'i baratoi i gydymffurfio â Chyfarwyddyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 98(2) o'r Ddeddf GIG 1977.

2. Bydd y rhagair hefyd yn cynnwys disgrifiad o'r cefndir statudol a phrif swyddogaethau'r BILl ynghyd ag adolygiad teg o'u gweithgareddau ariannol a gweithredol a chrynodeb o'u perfformiad yn erbyn targedau.